

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

Chwiliad testun rhydd

English

PDF

Argraffu

Cyfeirnodi

Linell Amser

English

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

GRIFFITH, JOHN (1818? - 1885), clerigwr

Enw: John Griffith
Dyddiad geni: 1818?
Dyddiad marw: 1885
Rhiant: Thomas Griffith
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Watkin William Price

Ganwyd (yn 1819 yn ôl *Yr Haul*, 1885) ym mhlwyf Llanbadarn Fawr, Sir Aberteifi, mab Thomas Griffith. Cafodd ei addysg yn ysgol Ystrad Meurig, ysgol ramadeg Abertawe, a Choleg Crist, Caergrawnt (B.A. 1841, M.A. 1844). Ordeiniwyd ef yn ddiakon yn 1842, yn offeiriad yn 1843; bu'n gurad yn Astbury, gerllaw Congleton, swydd Gaer, 1842-4, a bu'n athro a chaplan teulu yng nghartref **Syr Stephen Glynn**e, barwnig, Penarlâg, Sir y Fflint, 1844-6. Dewiswyd ef yn ficer Aberdâr yn 1846 gan ardalydd Bute; bu yno hyd 1859 pryd y daeth yn rheithor Merthyr Tydfil, lle y bu hyd ei farw, 22 Ebrill 1885.

Y mae'n bosibl na fu i un offeiriad arall yng Nghymru gymaint rhan mewn dadleuon â John Griffith. Gydag Ymneilltuwyr y bu'r anghydweld yn gyntaf, ac yna gyda'i gyd-glerigwyr, ei archddiacon, ei ddeon, a'i esgob. Dechreuodd y cyfnod cythryblus hwn wedi i R. R. W. Lingen, un o'r comisiynwyr a anfonodd y Llywodraeth i archwilio cyflwr addysg yng Nghymru, ymweled ag Aberdâr yn 1847. Aeth John Griffith gyda Lingen i ysgolion Aberdâr, 20 Mawrth 1847, ac ysgrifennodd ato, ar 21 Ebrill yr un flwyddyn, ar gyflwr addysg yn y plwyf; ysgrifennodd hefyd i'r Wasg o dan ffugenw. Cyhoeddwyd adroddiad y comisiynwyr yn 1847 ('Brad y Llyfrau Gleision') a bu protestio cryf trwy'r wlad oherwydd yr ymosodiadau yn yr adroddiad ar Anghydfurfiaeth Cymru ac ar yr iaith Gymraeg. Yr oedd teimladau'n frwd yn Aberdâr gan i'r ficer ieuanc bleidio'r comisiynwyr a dywedyd pethau cas am gyflwr moesol y boblogaeth - y merched yn enwedig. Cynhaliwyd cyfarfodydd protest a bu'r newyddiaduron lleol a chylichgronau'r enwadau yn ymosod yn chwynr ar John Griffith. Ni chymerodd ef sylw o'r ymosodiadau eithr myned ymlaen gyda'i waith fel offeiriad y plwyf; cynhaliodd y cyfarfod cyntaf erioed gan yr Eglwys yn Hirwaun, ac estyn cylch ei dylanwad trwy adeiladu eglwys yn Heolyfelin (Trecynon) ac ysgol yr eglwys yn Cwmbach.

O dan ffugenw bu'n beirniadu deon a chabidlwl Caerloyw am eu bod yn derbyn degwm a rhenti tir yr eglwys yn Aberdâr heb roi dim i'r plwyf yn gyfnewid. Ymhen ychydig fisoedd dechreuodd y deon a'r cabidlwl gyfrannu tuag at gynhaliaeth curad yn Aberdâr.

Tua diwedd 1848 troes Griffith i alw sylw at ddifffygion yr Eglwys, gan ei beirniadu am ddewis Saeson uniaith i blwyfi Cymreig a thrwy hynny anwybyddu hawliau'r boblogaeth a siaradai Gymraeg. Ymosodwyd arno gan benafgwyr yr Eglwys, ond daeth teimladau'r Ymneilltuwyr tuag ato yn dynerach. Yn ddiweddarach, yn enwedig yn 1868, trwy siarad mewn cynadleddau eglwyswyr ac erthyglau yn y Wasg, bu'n ymosod ar ormod-defodaeth yng ngwasanaethau'r Eglwys. Condemniwyd ei adroddiadau gan y bernid eu bod yn gwbl anghywir ac yn gamarweiniol. Serch hynny, gwnaeth Griffith wasanaeth mawr i'r Eglwys, ac enillodd serch y bobl oblegid ei ddifrifwch a'i huodledd yn y pulpud, ei gymorth ymarferol pan geid tanchwâu yn y pyllau glo, a'i lwyddiant pan apeliai am gymorth ariannol i'r gweddwon a'r amddifaid. Yr un modd hefyd ym Merthyr pan aeth yno; daeth y rheithor megis ar unwaith yn rhan o fywyd cyhoeddus y dref.

Yr oedd ei agwedd tuag at ddadl fawr wleidyddol ail hanner y ganrif yng Nghymru yn bur nodedig. Pan wahoddwyd ef i annerch cyfarfod cyhoeddus ar gwestiwn datgysylltiad yr Eglwys, atebodd, ar 14 Gorffennaf 1883, ei fod ers blynyddoedd lawer yn credu'n gryf na wnai dim ond datgysylltiad - gwahanu'r Eglwys oddi wrth y wladwriaeth - wella stad yr Eglwys yng Nghymru.

Pan oedd yn Aberdâr ceisiodd Griffith sefydlu ' Mechanics Institute,' ystafell ddarllen, a llyfrgell a fyddai'n rhoddi llyfrau'n fenthyg (1849), traddododd y gyntaf mewn cyfres o ddarlithiau poblogaidd, ac etholwyd ef ar amryw fyrrddau cyhoeddus. Bu'n gyfrifol am adeiladu eglwys S. Elfan a ficerdy Aberdâr. Y mae tuedd i'w gymysgu â **John Griffiths** (1820 - 1897).

Awdur

Watkin William Price, (1873 - 1967)

Ffynonellau

The Red Dragon, Mehefin 1885, t.481-488

Charles Wilkins, *The history of Merthyr Tydfil* (Merthyr Tydfil 1867), 1867, 291-2

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Crockford's Clerical Directory, 1884

The Aberdare Banner of Faith, and parish magazine, Mai 1885

Yr Haul, 1885, 188-9, 215-7

W. W. Price, *Park School Centenary* (1948), 1948

Cardiff and Merthyr Guardian, 1847, 1848, 1858, 1860, etc.

The Principality, 1848-50

Y Gwron, 1858

Y Traethodydd, 1848

Y Drysorfa, Rhagfyr 1848

John Bull (1948), 1848

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q16062944

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Price, W. W., (1953). GRIFFITH, JOHN (1818? - 1885), clericwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-GRIF-JOH-1818>

Y Bywgraffiadur

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu



LLYFRGELL
THE NATION

